

Cofnodion drafft cyfarfod agored Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2016 yn swyddfa'r Asiantaeth Safonau Bwyd, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd.

Yn bresennol:

Aelodau Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru (WFAC) a oedd yn bresennol:

Mr T Bennett – Cadeirydd Dros Dro

Mr R Alexander

Dr N Barry

Mrs S Jones

Mr D Morgan

Mr D Peace

Swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a oedd yn bresennol:

Nina Purcell - Cyfarwyddwr yr Asiantaeth yng Nghymru

Lucy Edwards – Ysgrifenyddiaeth

Helen George – Ysgrifenyddiaeth

Vicki Reilly – Ysgrifenyddiaeth

Steve Wearne – drwy fideo gynhadledd ar gyfer eitemau 1, 2 a 3

Jason Feeney a Richard Hoskins – drwy fideo gynhadledd ar gyfer eitem 4

1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod agored y Pwyllgor, a rhoi gwybod i'r rheiny a oedd yn bresennol am y siaradwyr gwadd a fyddai'n cyflwyno papurau. Nodwyd bod Mr D H Jones wedi ymddiheuro na fydd yn bresennol.

2. Datganiadau o ddiddordeb

2.1 Dywedodd aelodau'r Pwyllgor am y datganiadau o ddiddordeb canlynol:

- Dywedodd Norma Barry ei bod yn aelod o Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru.
- Dywedodd David Peace ei fod yn gadeirydd anweithredol i'r grŵp Hall Mark, ac yn gynghorydd busnes i fusnes bwyd fferm yn Sir Fynwy.

2.2. Nodwyd pob datganiad. Ni wnaeth unrhyw aelod dynnu'n ôl rhag trafodaethau.

3. Cofnodion y cyfarfod agored diwethaf (Papur FSAW 16/05/01)

3.1 Derbyniwyd cofnodion drafft y cyfarfod agored a gynhaliwyd ar 12 Mai fel cofnod cywir o'r trafodaethau. Cytunwyd y dylid cyfieithu'r cofnodion terfynol a'u rhoi ar y wefan. **Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

4. Adroddiad y Cadeirydd (Papur FSAW 16/07/02)

4.1 Cyflwynodd Cadeirydd dros dro y Pwyllgor adroddiad ysgrifenedig ar y materion a godwyd gan Gadeirydd Bwrdd yr ASB yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2016. Wrth roi sylw ar yr adroddiad, rhoddodd y Cadeirydd dros dro adborth pellach am y cyfarfodydd cadarnhaol diweddar y cafodd ef a Chadeirydd y Bwrdd gyda'r Gweinidog newydd â chyfrifoldeb dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru (Rebecca Evans) ac Ysgrifennydd newydd y Cabinet â chyfrifoldeb dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Nghymru (Lesley Griffiths). Rhoddodd y Cadeirydd wybod bod y ddau Weinidog wedi siarad yn ffafriol am gynigion yr ASB o dan y rhaglen Rheoleiddio ein Dyfodol yn arbennig.

5. Diweddariad gan y Cyfarwyddwr (Papur FSAW 16/07/03)

5.1 Rhoedd adroddiad rheolaidd Cyfarwyddwr Cymru, Nina Purcell, yn hysbysu'r aelodau am newidiadau mewn cyfrifoldebau Gweinidogol yn dilyn canlyniad etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai. Roedd hefyd yn manylu ar gamau nesaf y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru, gan gynnwys rheoliadau newydd a fydd yn dod i rym ym mis Tachwedd 2016, sy'n ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd tecawê yng Nghymru roi gwybod am eu sgôr hylendid bwyd. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn amlygu nifer o erlyniadau llwyddiannus diweddar yng Nghymru, gan gynnwys un a godwyd gan Gyngor Sir Casnewydd a oedd yn defnyddio'r canllawiau dedfrydu newydd am y tro cyntaf yng Nghymru ar gyfer troseddau bwyd.

5.2 Cafodd y Pwyllgor wybod bod Cyfarwyddwr Cymru wedi mynychu cyfarfod Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin lle yr aeth ati i ddiweddarau'r Pwyllgor ar gynigion yr ASB o dan y rhaglen Rheoleiddio ein Dyfodol.

6. Fframwaith ar gyfer Asesu Bwydydd a Allai Beri Risg Cynyddol: Diweddariad ar Ddatblygiadau Pellach (Papur FSAW 16/07/04)

6.1 Aeth aelodau'r Pwyllgor ati i ystyried y papur sy'n rhoi diweddariad ar y cynnydd wrth ddatblygu fframwaith ar gyfer asesu bwydydd a allai beri risg cynyddol. Wrth drafod y papur, gwnaeth yr aelodau y sylwadau a ganlyn:

- bod angen i'r ddogfen fframwaith gynnwys amcanion clir yn ogystal â meini prawf ar gyfer monitro a gwerthuso;

- roedd y Pwyllgor yn croesawu'r ffaith y byddai'r gwaith o datblygu'r fframwaith, a'i roi ar waith, yn cael ei lywio gan weithgor ad hoc gyda'r aelodau yn dod o sawl pwyllgor cyngtori gwyddonol yr ASB.

6.2 Yn gyffredinol, roedd y Pwyllgor yn cefnogi datblygu'r dull a nodir yn y papur, ac, yn benodol, wrth son am ddatblygu'r fframwaith diwygiedig ymhellach, y dylai 'newid' gael ei ddefnyddio fel y prif faen prawf i nodi ac i flaenoriaethu bwydydd a allai ddod o dan gwmpas y gwaith a'r fframwaith hwn.

7. Gweini Byrgyrs nad ydynt Wedi'u Coginio'n Drylwyr Mewn Safleoedd Bwyd: Diweddariad (Papur FSAW 16/07/05)

7.1 Aeth yr aelodau ati i ystyried y papur, a oedd yn rhoi diweddariad ar bob agwedd ar y gwaith sydd wedi'i gwblhau a'r gwaith sy'n mynd rhagddo i weithredu safbwynt yr ASB, fel y'i mabwysiadwyd gan y Bwrdd ym mis Medi 2015. Y safbwynt hwn yw bod gweini byrgyrs nad ydynt wedi'u coginio'n drylwyr yn annerbyniol oni bai bod ystod o fesurau rheoli yn eu lle. Rhoddodd y Pwyllgor sylwadau cadarnhaol ar fanylder y papur ac ar y ffordd y cyflwynwyd y tabl statws sy'n rhoi gwybod am gynnydd yn erbyn penderfyniadau'r Bwrdd.

Yn ystod trafodaeth fanwl ar y papur, cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:

- bod pryder parhaus am allu swyddogion gorfodi awdurdodau lleol i ddilysu bod mesurau rheoli priodol yn eu lle, mewn hinsawdd lle mae adnoddau awdurdodau lleol yn lleihau tra bo'r farchnad ar gyfer byrgyrs sy'n cael eu gweini heb eu coginio'n drylwyr yn cynyddu;
- bod adborth gan awdurdodau lleol, gan gynnwys awdurdodau yng Nghymru, wedi nodi bod y swyddogion gorfodi wedi croesawu'r canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016, er bod gan rai bryderon o hyd mewn perthynas â chyflenwyr a negeseuon i ddefnyddwyr a nodir ym mharagraff 4.10 y papur;
- bod negeseuon i ddefnyddwyr yn bwysig gan fod hwn yn faes cymleth, a bod angen trosglwyddo'r negeseuon am risgiau'r byrgyrs hyn a'r gwahaniaeth rhwng coginio yn y cartref a bwyta allan;
- roedd y Pwyllgor yn croesawu'r camau a roddwyd ar waith i fonitro cyfraddau digwyddiadau ac achosion o STEC a gludir gan fwyd, ac yn croesawu'r wybodaeth gynnar am ragori ar lefelau o bathogenau gastroberfeddol a ddarparwyd gan gyrff iechyd y cyhoedd;
- bod pryder parhaus oherwydd er y gall unigolyn wneud penderfyniad gwybodus i fwyta byrgyr nad yw wedi'i goginio'n drylwyr, pe byddai cymlethdodau iechyd

yn codi, gall hyn achosi perygl i unigolion eraill, gan gynnwys yr henoed neu'r rheiny sy'n agored i newid.

- pryder ynghylch rheoli tarddiad o fewn y gadwyn gyflenwi. Yn benodol, y nifer isel o sefydliadau sydd wedi dangos bod ganddynt reolaethau priodol ar waith. Mae'r sefydliadau hyn yn ystyried meini prawf microbiolegol yn neddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer cig na fydd yn cael ei goginio.

7.2 Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor am drafodaethau a gynhaliwyd â'r Pwyllgor Cynghori ar Ddiogelwch Microbiolegol Bwyd ar 30 Mehefin mewn perthynas â datblygu cyngor ar gyfuniadau amser/tymheredd er mwyn sicrhau gostyngiad 4-log mewn STEC. At bwrpas asesu risg, mae canllawiau'r Pwyllgor Cynghori ar Ddiogelwch Microbiolegol Bwyd yn dal i nodi gostyngiad 6-log.

7.3 Fe holwyd nifer o gwestiynau am y papur hwn gan randdeiliaid a oedd yn y cyfarfod. Gofynwyd i randdeiliaid gyflwyno nodyn ar wahân i Uwch Dim Rheoli'r ASB er mwyn ehangu ar eu pryderon ymhellach.

8. Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (Papur FSAW 16/07/06)

8.1 Aeth yr aelodau ati i ystyried y papur a oedd yn manylu ar y bygythiad byd-eang sylweddol sy'n dod i'r amlwg o ficrobau'n ymwrthod cyfryngau gwrthficrobaidd, gan gynnwys y rheiny sy'n hanfodol bwysig o ran therapi pobl. Nododd y Pwyllgor bod mynd i'r afael â bygythiad ymwrthedd gwrthfictig yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, gan hefyd nodi'r ymrwymiad i sicrhau dull integredig ar lefel genedlaethol a rhyngwladol, drwy weithgarwch a amlinellir yn Strategaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Pum Mlynedd y DU. Cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:

- pwysigrwydd gosod canlyniadau yn y strategaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd er mwyn mesur cynnydd. Yn y cyd-destun hwn, roedd yn croesawu argymhelliad 3.4¹ yr Adolygiad Annibynol ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd,² a gyhoeddwyd ar 19 Mai 2016, gan yr Arglwydd O'Neill;

¹ Dylai cynhyrchwyr a manwerthwyr bwyd gymryd camau i wella tryloywder i ddefnyddwyr o ran defnyddio gwrthfictigau yn y cig yr ydym yn ei fwyta, er mwyn galluogi defnyddwyr i wneud penderfyniadau mwy gwybodus. Yn rhan o hyn, rydym yn galw ar weithgynhyrchwyr, manwerthwyr a rheoleiddwyr i gytuno ar safonau o ran 'defnydd cyfrifol' y dylid eu defnyddio fel sail ar gyfer creu label rhyngwladol, neu ei ddefnyddio gan gyrrff ardystio presennol.

² Adolygiad o Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (2016) Mynd i'r afael yn fyd-eang â heintiadau sy'n ymwrthol i gyffuriau: Adroddiad terfynol ac argymhellion. Ar gael drwy: <http://amr-review.org/> (Saesneg yn unig)

- wrth gydnabod bod cynnydd ymwrthedd gwrthficrobaidd yn cael ei ystyried i fod yn argyfwng byd-eang, pwysleisiodd y Pwyllgor byddai angen sicrhau bod bwyd sy'n cael ei fewnforio o du allan i'r UE, gan gynnwys bwyd o drydydd gwledydd, yn cael ei samplu fel rhan o broses gadarn.

8.2 Wrth ddod â'r trafodaethau i ben, cytunodd y Pwyllgor ar yr egwyddorion a nodir yn y papur mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau clir wrth roi cyfraniad yr ASB i Strategaeth Ymwrthedd y DU ar waith.

9. Digwyddiadau a Gwydnwch: Adroddiad Blynyddol 2015/16 (Papur FSAW 16/07/07)

9.1 Aeth y Pwyllgor ati i ystyried yr adroddiad blynyddol cyntaf hwn, sy'n manylu ar waith digwyddiadau a gwydnwch yr ASB yn ystod y cyfnod 2015/16. Rhoddwyd briff i'r Pwyllgor ar bedair prif agwedd yr adroddiad, a oedd yn trafod y nifer o hysbysiadau a rhybuddion am ddigwyddiadau a dderbyniwyd, perfformiad swyddogaethau digwyddiadau a gwydnwch yn yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban, y rhaglen gwella parhaus a gwaith ar fesurau atal gyda phartneriaid diwydiant.

Wrth drafod, fe wnaeth y Pwyllgor yr arsylwadau canlynol:

- bod gwaith adweithiol a rhagweithiol y swyddogaeth digwyddiadau a gwydnwch, a'i gweithdrefnau cadarn, yn cyfrannu'n aruthrol at ymrwymiad strategol yr ASB i sicrhau 'bwyd y gallwn ymddiried ynddo'.
- roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod cyfrifoldeb dros ddiogelu'r cyhoedd yn cael ei rannu rhwng busnesau, yr ASB, cyrff iechyd y cyhoedd, rhannau o Lywodraeth ganolog a Llywodraeth leol a defnyddwyr;
- mae'n bwysig i'r swyddogaeth digwyddiadau a gwydnwch barhau i gael ei llywio drwy ddull 'dysgu gwersi', er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn a safonau gweithredu yn eu lle;
- roedd y Pwyllgor yn croesawu cynigion i fynd i'r afael â phrosiect i adolygu a gwella effeithiolrwydd y gallu i olrhain cynnyrch a'r broses tynnu a galw cynnyrch yn ôl, yn ogystal â nodi bod Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ar fin cael ei sefydlu er mwyn cefnogi'r gwaith hwn;
- y byddai aelodaeth y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid angen sicrhau cynrychiolaeth briodol gan Gymru, ac mewn perthynas â hyn, y byddai'n ddefnyddiol cael trafodaethau'n fuan â Phanel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Cymru ynghylch enwebiad posibl
- wrth nodi cynigion Llywodraeth Cymru i gynnal ymarfer digwyddiad bwyd yn 2016/17, y byddai'n ddefnyddiol dechrau ar drafodaethau cynnar â Phanel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Cymru.

9.2 Yn ei gasgliadau, croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad a chafodd swyddogaeth digwyddiadau a gwydnwch yr ASB ei chanmol am gyflawni nifer o ddarnau allweddol

o waith gyda dros 1,500 o hysbysiadau digwyddiadau a nifer cynyddol o rybuddion 'galw cynnyrch yn ôl' a rhybuddion alergedd yn gefndir i'r gwaith hwnnw.

10. Adborth gan Rwydweithiau'r Pwyllgor

10.1 Dim adborth i'w nodi.

11. Sesiwn Holi ac Ateb

11.1 Caiff yr holl faterion a godwyd fel rhan o'r sesiwn eu hadlewyrchu yn y sylwadau uchod.

12. Unrhyw fater arall

12.1 Nododd y Pwyllgor y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 15 Medi 2016.

Camau Gweithredu

	Camau gweithredu	Erbyn	Statws
Para 3.1	Cyfieithu cofnodion y cyfarfod ym mis Mai i'w rhoi ar y wefan.	31 Gorffennaf 2016	Wedi'i gwblhau